**Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro**

# Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i llunio i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, neu oedolion mewn perygl, i ddod o hyd i ddatrysiad pan fydd ganddynt bryder neu anghytundeb proffesiynol mewn perthynas ag ymarfer diogelu rhyngasiantaethol.

Mae'n bwysig bod gan weithwyr proffesiynol yr hyder i gwestiynu barn gweithwyr proffesiynol eraill wrth weithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i staff yr holl asiantaethau sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant ac oedolion.

Mae hyfforddiant priodol yn ogystal ag eglurder ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau proffesiynol eu hunain a rhai asiantaethau eraill yn annog staff i fod â'r hyder i gyfrannu'n effeithiol at waith rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol. Mae ymarfer diogelu effeithiol yn golygu defnyddio her broffesiynol mewn achosion lle mae barn wahanol am y ffordd orau o gefnogi a diogelu person sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Nid yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn cytuno ar y camau sydd eu hangen i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl orau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r materion hyn yn cael eu datrys drwy drafodaeth rhwng y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig.

Nid yw'r protocol hwn mewn unrhyw ffordd yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan na'r Polisi a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ond yn hytrach mae'n ceisio manylu ar y camau y dylid eu cymryd i ddatrys pryderon neu anghytundebau proffesiynol nad ydynt wedi eu datrys.

Amcan y ddogfen hon yw nodi'n glir gyfrifoldeb pob gweithiwr proffesiynol i:

- roi lles plant ac oedolion mewn perygl yn gyntaf;
- herio'n adeiladol os bydd anghytundebau'n codi;
- dilyn pryderon i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn ddigonol.

## 2. Diben y protocol

Diben y protocol hwn yw:

- sefydlu proses ar draws holl asiantaethau Bwrdd Diogelu (BD) Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau diwylliant sy'n hyrwyddo her broffesiynol;

- sicrhau bod staff ym mhob asiantaeth BD Caerdydd a'r Fro yn gymwys ac yn hyderus wrth herio ymarfer er budd pennaf plentyn; a

- sicrhau bod BD Caerdydd a'r Fro yn gallu archwilio'r broses hon a cheisio sicrwydd bod gweithwyr proffesiynol yn gallu herio mewn modd adeiladol, a'u bod yn barod i wneud hynny.

Mae'r protocol yn manylu ar y camau y dylid eu cymryd i ddatrys anghytundebau nad ydynt wedi eu datrys, ac yn nodi'n glir gyfrifoldeb pob gweithiwr proffesiynol i roi lles plant yn gyntaf, i herio'n adeiladol os bydd anghytundebau'n codi ac i ddilyn pryderon i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn ddigonol.

## 3. Cwmpas

Cyn defnyddio'r protocol hwn, dylai'r ymarferydd geisio datrys pryderon neu anghytundebau proffesiynol gyda'i gymar yn yr asiantaeth gysylltiedig. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r pryder, gan ddatrys unrhyw wahaniaethau a chytuno ar gwrs gweithredu os oes angen.

Mae'r protocol hwn yn berthnasol i bob cam y broses amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n berthnasol i bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant, oedolion mewn perygl a'u teuluoedd sy'n gyfrifol am ddiogelu. Mae'n rhoi arweiniad ar y camau y dylid eu cymryd os oes anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch y ffordd orau o ddiogelu ac amddiffyn plentyn/oedolyn mewn perygl penodol. Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i Gadeiryddion Cynadleddau mewn perthynas â phryderon sy'n codi o Gynadleddau Amddiffyn Plant.

***Nid*** yw'r Polisi hwn yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Pryderon neu anghytundebau proffesiynol o fewn un asiantaeth. Cyfrifoldeb yr holl asiantaethau yw sicrhau bod ganddynt drefniadau cadarn i ddatrys eu pryderon neu eu hanghytundebau mewnol eu hunain.

- ***Ni*** ddylid defnyddio'r protocol yn achos cwyn am weithiwr proffesiynol penodol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd gweithdrefn gwyno'r sefydliad priodol yn berthnasol. Dylid cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig i reolwr llinell y gweithiwr proffesiynol a'i chopïo i'r person sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant/oedolion mewn perygl yn ei sefydliad.

- Ni ddylai plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl na theuluoedd ddefnyddio'r protocol hwn; dylent ddefnyddio gweithdrefn gwyno BD Caerdydd a'r Fro a/neu weithdrefn gwyno sefydliadau unigol fel y bo'n briodol.

Gallai pryderon neu anghytundebau godi mewn nifer o feysydd, ond maent yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i wahanol safbwyntiau ar drothwyon, diffyg dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau, yr angen am gamau weithredu neu faterion cyfathrebu.

## 4. Proses ddatrys

***Diogelwch y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl unigol yw'r ystyriaeth bwysicaf mewn unrhyw anghytundeb proffesiynol a dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion heb eu datrys gan ystyried yn briodol y risgiau a allai fodoli i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl. Ni ddylai dilyn yr arweiniad hwn oedi camau gweithredu i amddiffyn diogelwch plentyn neu oedolyn mewn perygl.***

***Dylid ceisio datrys o fewn yr amserlen fyrraf bosibl i sicrhau bod y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn cael ei amddiffyn. Dylid datrys pryderon neu anghytundebau ar y cam isaf posibl. Fodd bynnag, os credir bod plentyn neu oedolyn mewn perygl yn wynebu risg o niwed uniongyrchol, dylid defnyddio disgresiwn ynghylch pa gam a gychwynnir.***

Os oes pryderon neu anghytundebau proffesiynol rhyngasiantaethol nad ydynt wedi eu datrys, dylid cymryd y camau canlynol ar unwaith:-

| **CAM 1 – YMATEB ASIANTAETH** |
|---|

Os na ellir mynd i'r afael â phryder neu anghytundeb drwy ddatrysiad rhwng unigolion, dylai'r gweithiwr proffesiynol godi ei bryderon gyda'i reolwr uniongyrchol ar unwaith. Fel arall, dylai ofyn am gyngor gan y person yn ei sefydliad a nodwyd fel yr arweinydd ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion mewn perygl.

Dylai'r rheolwr/arweinydd diogelu drafod y pryderon a godwyd gyda'i gymar yn yr asiantaeth/sefydliad arall a cheisio datrys y mater o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Gall hyn gynnwys cyfarfod i gytuno ar ffordd o weithredu rhwng yr ymarferwyr cysylltiedig a'u rheolwyr llinell/goruchwylwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod camau cyflym yn cael eu cymryd i ddiogelu'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl, er y cydnabyddir y gallai fod angen cyfnod hirach i ddatrys materion proses.

Yn dilyn hyn, dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth yn nodi'n benodol y meysydd pryder neu anghytundeb. Dylid cofnodi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt gan gynnwys a gafodd y pryder neu’r anghytundeb ei ddatrys ar y cam hwn. Os yw’r mater wedi’i ddatrys dylai'r cofnodion hyn gael eu cadw gan yr asiantaethau unigol cysylltiedig. Dylai'r templed yn Atodiad 3 gael ei gwblhau gan y rheolwr/arweinydd diogelu i gofnodi penderfyniadau Cam 1 a'i gyflwyno i'r Uned Fusnes pan fydd wedi'i gwblhau. Bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Cyflawni at ddibenion monitro.

***CAM 2 - UWCHGYFEIRIO I BD CAERDYDD A’R FRO***

Os nad yw’r mater wedi’i ddatrys yng Ngham 1, dylai'r rheolwr (neu'r gweithiwr proffesiynol arweiniol) gyfeirio'r mater ar unwaith i Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu gan ddefnyddio'r templed 'Pryder ynghylch Ymarfer Diogelu Rhyngasiantaethol' (Atodiad 1).

Bydd y Rheolwr Busnes yn sicrhau bod y pryder yn cael ei gofnodi a bydd yn ceisio cydlynu datrysiad ar unwaith rhwng asiantaethau partner. Bydd angen i'r Rheolwr Busnes nodi'r bobl berthnasol i gysylltu â nhw o fewn yr asiantaethau. Pan na ellir cyflawni hyn, bydd y pryder yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyflawni'r Bwrdd.

Bydd y Rheolwr Busnes yn sicrhau bod canlyniad y cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i fwydo'n ôl i'r asiantaethau cysylltiedig.

***CAM 3 - UWCHGYFEIRIO I GADEIRYDD/IS-GADEIRYDD BD CAERDYDD A’R FRO***

Os nad yw’r pryder neu’r anghytundeb wedi’i ddatrys drwy broses Cam 2, bydd Cadeirydd y Grŵp Cyflawni yn trefnu i'r mater gael ei uwchgyfeirio i Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Bwrdd Diogelu. Bydd angen i'r unigolyn a nodwyd fod yn annibynnol i’r achos.

Gwneir penderfyniad gan y Cadeirydd/Is-gadeirydd ynghylch a gynhelir adolygiad o'r achos dan sylw. Bydd y Cadeirydd/Is-gadeirydd yn hysbysu cynrychiolwyr yr asiantaethau o’i benderfyniad o fewn 5 diwrnod.

Os oes angen adolygiad, bydd naill ai'n cael ei gynnal gan gadeirydd grŵp a nodwyd, neu bydd cais yn cael ei wneud i asiantaeth unigol gynnal adolygiad. Yn achos yr olaf, rhaid i'r asiantaeth unigol sicrhau bod aelod annibynnol o'r BD ar y panel adolygu.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyflawni BD Caerdydd a’r Fro, gan nodi’r camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniadau ar gyfer y plentyn/oedolyn mewn perygl. Bydd y pwyntiau dysgu allweddol yn cael eu dosbarthu i asiantaethau fel y bo'n briodol.

<u>Efallai y bydd rhai pryderon neu anghytundebau sydd mor sensitif/beirniadol bod angen iddynt gael eu huwchgyfeirio ar unwaith i Gam 3, gan osgoi’r camau cychwynnol</u>. Gall hyn gynnwys:

- Achosion gyda lefel uchel o ddiddordeb gwleidyddol/diddordeb gan y cyfryngau
- Achosion sydd wedi arwain at (neu y gallent fod wedi achosi) farwolaeth neu niwed difrifol
- Pan fo ymateb effeithiol yn gofyn am gydlynu amlasiantaethol ar lefel uwch reolwr i reoli bygythiad, risg a niwed.

Dylid trafod unrhyw bryderon neu anghytundebau o'r math hwn ar unwaith gyda gweithiwr diogelu proffesiynol arweiniol yr asiantaeth unigol.

Bydd diweddariad yn cael ei adrodd drwy'r Adroddiad Data Perfformiad i BD Caerdydd a'r Fro bob chwarter.

## 5. Adolygiad

Bydd BD Caerdydd a'r Fro yn adolygu cynnydd y protocol hwn ar ôl 12 mis ar ôl cadarnhau a phob 3 blynedd ar ôl hynny.

*Hoffai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro gydnabod gwaith Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar ei brotocol a adolygwyd yn ystod y broses ar gyfer ysgrifennu'r protocol hwn.*

ATODIAD 1

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# PRYDERON YNGHYLCH YMARFER DIOGELU RHYNGASIANTAETHOL

Mae'r ffurflen hon yn cefnogi Cam 2 y 'Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol'
Dylid defnyddio'r ffurflen dim ond mewn achosion lle mae pryder neu anghytundeb proffesiynol:

1. heb ei ddatrys ar lefel ymateb asiantaeth, ac
2. yn dilyn proses Cam 1, heb ei ddatrys drwy brosesau un asiantaeth.

**RHAN A - I'W CHWBLHAU GAN YR ASIANTAETH SY’N CODI'R PRYDER**

**Enw'r Plentyn/Oedolyn mewn Perygl:**

**Dyddiad Geni:** **Cyfeiriad:**

**Rhif y digwyddiad (os yw'n briodol):**

**Enwau a Dyddiadau Geni’r Rhieni Biolegol/Gofalwyr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ENW'R PERSON SY'N CODI’R PRYDER:** | | | |
| **SEFYDLIAD:** | | | |
| **RHIF CYSWLLT:** | | **DYDDIA** | |
| **BETH YW’R BROBLEM?** | | | |
| | | | |
| **BETH SYDD WEDI'I WNEUD EISOES I DDATRYS HYN?** | | | |
| | | | |
| **BETH YW'R CANLYNIAD RYDYCH CHI’N CHWILIO AMDANO?:** | | | |

| |
|---|
| |
| **YR ASIANTAETH(AU) SYDD ANGEN YMATEB:** |
| |

**RHAN B - I'W CHWBLHAU GAN YR ASIANTAETH SY'N YMATEB O FEWN 10 DIWRNOD GWAITH AR ÔL DERBYN**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ENW'R PERSON SY'N YMATEB:** | | | |
| **SEFYDLIAD:** | | | |
| **RHIF CYSWLLT:** | | **DYDDIAD:** | |
| **YMATEB:** | | | |
| | | | |

**RHAN C - I'W CHWBLHAU GAN YR UNED FUSNES DIOGELU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFEIRNOD UNED** | | **DATRYSWYD (D/N):** | |
| **DYDDIAD ADRODD:** | | | |
| **CANLYNIAD:** | | | |
| | | | |
| **CAMAU DILYNOL (lle bo'n briodol):** | | | |
| | | | |
| **DYDDIAD CYMERADWYO:** | | | |

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD ANFON ADBORTH I'R ASIANTAETHAU CYSYLLTIEDIG:** | |

**CAM 1 - PRYDER ASIANTAETH**
Codi pryderon ar unwaith gyda rheolwr, gofyn am gyngor gan y swyddog arweiniol ar gyfer diogelu plant/oedolion. Cofnodi meysydd yr anghytundeb a chytuno ar gamau gweithredu os yw'n briodol.

Datrys

Cofnodi'r Canlyniad

Ni ddatryswyd

**CAM 2 - UWCHGYFEIRIO I BD CAERDYDD A'R FRO**
Mae'r rheolwr/gweithiwr proffesiynol arweiniol yn cyfeirio'r mater ar unwaith i Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu gan ddefnyddio'r templed 'Pryder ynghylch Ymarfer Diogelu Rhyngasiantaethol' (Atodiad 1).
Bydd y Rheolwr Busnes yn sicrhau bod y pryder yn cael ei gofnodi a bydd yn ceisio cydlynu datrysiad ar unwaith rhwng asiantaethau partner. Pan na ellir cyflawni hyn, bydd y pryder yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyflawni'r Bwrdd

Datrys

Caiff y canlyniad ei gofnodi a'i adrodd yn ôl i'r asiantaethau cysylltiedig

Ni

**Materion o natur**

**CAM 3 - UWCHGYFEIRIO I GADEIRYDD/IS-GADEIRYDD**
Mae'r mater yn cael ei uwchgyfeirio i Gadeirydd neu Is-gadeirydd y BD ac mae penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a fydd yr achos yn cael ei adolygu.

Datryswy

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, gan nodi camau gweithredu a chanlyniadau. Bydd y pwyntiau dysgu allweddol yn cael eu dosbarthu i asiantaethau fel y bo'n briodol.

## PRYDERON YNGHYLCH YMARFER DIOGELU RHYNGASIANTAETHOL

| Dyddiad Codi | Enw'r person/Cyfeirnod yr achos | Ardal ALl (Caerdydd/Bro) | Enw'r asiantaeth sy'n codi'r pryder | Crynodeb o'r pryder a'r themâu a nodwyd | Enw'r asiantaeth sy'n ymateb | Dyddiad datrys | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DD.MM.BB | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |